

Rhybudd Ymgynghoriad i ddewis safle ar gyfer yr Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Catholig Newydd 3-16 Newydd

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn datblygu cynnig ar gyfer adeiladu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Catholig Newydd 3-16 unai ar safle caeau chwarae'r Greenie neu safle presennol Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley gyda defnydd o un o Gaeau'r Blodau Menyn fel cae rygbi.

Yn dilyn adborth preswylwyr fel rhan o'r broses ymgynghori a gwblhawyd ym mis Medi 2021, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach, ar gynigion wedi ei ddiweddarau.

Mae'r ymgynghoriad, sy'n cynnwys opsiwn safle newydd yn cael ei gynnal er mwyn i'r holl fudd ddeiliaid gael cyfle i ymateb ar y cynnig wedi ei ddiweddarau. Bydd canlyniad yr arolygon ymgynghoriad yn hwyluso penderfyniad terfynol gan y Cyngor am leoliad yr ysgol.

Pan fydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu derbyn bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar gyfer penderfyniad ar leoliad yr ysgol..

Y ddau gynnig yw:

- **Opsiwn A** - adeilad yr ysgol, maes parcio ac ardal ollwng ar safle'r Greenie, gyda'r ddau gae chwarae ac ystafelloedd newid cymunedol yn cael ei adleoli i Gaeau'r Blodau Menyn . Bydd un o'r caeau chwarae yn gae pob tywydd wedi ei rannu rhwng y gymuned a'r ysgol a'r llall yn gae chwarae cymunedol bob amser. Mae darpariaeth gymunedol hefyd yn rhan o Ran 2 o safle presennol Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley.
- **Opsiwn B** - adeilad yr ysgol a safle gollwng yr ysgol gynradd ac ardal chwarae'r ysgol gynradd wedi ei leoli yn Rhan 2 ar safle presennol Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley, gyda maes parcio, neuadd chwaraeon a chaeau chwarae yn Rhan 1 o safle presennol Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley. Bydd y Caeau Blodau Menyn yn cynnwys cae rygbi ar lwyfandir 2.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o Ddydd Iau Ionawr y 6^{ed} 2022 hyd Ddydd Iau Chwefror 17^{eg} 2022 a gellir gweld y manylion yn llawn a chymryd yr arolwg ymgynghoriad trwy ddilyn y linc ganlynol <https://www.merthyr.gov.uk/vaschool>

Neu gellir derbyn copi papur gan y Cyngor trwy ffonio 01685 725000 neu e-bostio 3-16vaschool@merthyr.gov.uk.

Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed eich llais cwblhewch yr arolwg ar lein neu dychwelwch eich copi papur i'r Cyngor wedi ei gyfeirio At Sylw Project Ysgol 3-16 erbyn Dydd Iau Chwefror 17^{eg} 2022.

Mae'r rhybudd uchod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a osodir ym Mesur Caeau Chwarae (Ymglymiad Cymunedol ym Mhenderfyniad Gwaredu)(Cymru) 2010.